

Gwybodaeth i ymwelwyr am barc Gwledig Pen-bre

Darllenwch y cyngor canlynol cyn ymweld â Pharc Gwledig Pen-bre a gweld yr olion Rhyfel Byd. Cyn ymweld gyda disgyblion, rydym yn argymhell bod athrawon yn dod yma'n gyntaf er mwyn ymgyfarwyddo â'r safle oherwydd bod rhai nodweddion dipyn o bellter o'i gilydd. Rydym wedi darparu'r wybodaeth ganlynol i godi ymwybyddiaeth athrawon o'r risgau sydd ar y safle a darparu argymhellion i leihau'r risgau hyn; fodd bynnag, cyfrifoldeb yr ysgol yw llenwi ei hasesiad risg ei hun gan ystyried unrhyw risgau ychwanegol neu anghenion disgyblion.

Yn ogystal â'r uchod, rydym yn argymhell bod gan grwpiau sy'n ymweld, o leiaf un person sydd wedi ei hyfforddi mewn cymorth cyntaf a'u bod yn cario offer cymorth cyntaf bob amser. Dylai ffonau symudol fod â batri llawn gyda phob arweinydd grŵp yn ymwybodol o rifau argyfwng. Mae cyfleusterau ar y safle a dylai'r athrawon alw yn y ganolfan ymwelwyr i gael map o'r safle er mwyn gwybod ble mae pob un o'r cyfleusterau. Gobeithio y gwnewch chi fwynhau eich ymweliad.

Helpwch ni i amddiffyn y safle! A fydddech cystal â gwneud yn siwr bod y disgyblion yn ymwybodol nad ydynt i fod i gasglu blodau gwyllt. Ni ddylid symud unrhyw beth o'r safle a dylid mynd â sbwriel adref neu ei daflu yn y biniau a ddarperir.

Perygl	Lefel y risg	Camau i'w cymryd i leihau lefel y risg
Cerdded mewn ardal anghysbell/plant coll	Isel	Cynghorir athrawon i ymweld â'r safle o flaen llaw i ddod yn gyfarwydd â'r safle a'r tirwedd. Dylai athrawon ddefnyddio'r system 'buddy' i wneud yn siwr fod y disgyblion wastad yn ymwybodol o'r rheini sydd o'u cwrpas. Gwnewch yn siwr fod oedolyn y tu blaen a thu cefn i'r grŵp. Cyfrwch y disgyblion yn gyson a rhowch gynlluniau yn eu lle pe bai'r disgyblion yn mynd ar goll.
Tywydd gwael	Isel	Os yw tywydd gwael (gan gynnwys gwyntoedd cryfion) yn gwneud ymweld â'r safle yn anniwel, dylid gohirio neu ganslo. Dylai ymwelwyr wisgo dillad addas wrth ymweld â'r safle, gan gynnwys esgidiau cryf. Dylai fod ganddynt ddillad ar gael ar gyfer amrywiaeth o amodau. Mewn tywydd poeth, gwisgwch eli haul.
Ia/mwd/llanast ar y llwybrau a'r gelltydd	Canolig	Ia, mwd a dŵr ar y safle. Dylai athrawon sicrhau bod y disgyblion yn ymwybodol o hyn a dylent osgoi ardaloedd gwlyb ar y safle. Dylai ymwelwyr wisgo esgidiau addas a chadw at y llwybrau agored.
Sbwriel, metel, gwydr, nodwyddau hyperdermig ac ati	Canolig	Efallai bydd gwydr wedi torri, darnau o fetel a sbwriel ar y safle. Dylai disgyblion ac athrawon fod yn ymwybodol o hyn ac osgoi ardaloedd penodol ar y safle lle mae sbwriel wedi crynhoi.
Plant yn dringo ar gerrig sydd yn y golwg	Isel	Dylai athrawon gynghori disgyblion ynglŷn â natur simsan rhai o'r nodweddion hyn a mwy bregus ac rydym yn pwysleisio na ddylid dringo'r adeiladau hyn. Dylid atal unrhyw blant a gaiff eu dal yn dringo adeiladau o'r fath a dweud wrthyn nhw am ddod i lawr (os yw'n ddiogel i wneud hynny) ar unwaith.

Perygl	Lefel y risg	Camau i'w cymryd i leihau lefel y risg
Ceir yn gyrru i mewn ac o gwmpas yr ardal ymweld	Isel	Dylai athrawon gynghori disgyblion i fod yn ymwybodol o bresenoldeb ceir ac ymddwyn yn wylidwrus.
Adeiladau simsan	Canolig	Cymerwch ofal arbennig yng nghyffiniau adeiladau simsan, lle mae yna berygl mawr y gallau gwrthrychau ddisgyn oddi arnynt neu y gallech ddisgyn i mewn i dwll. Dylai'r athrawon arwain y disgyblion o fewn pellter diogel i'r nodweddion hyn a'u rhybuddio am risgau a pheryglon yr ardaloedd hyn. Dylid gwneud asesiad risg llawn lle mae'r potensial ar gyfer risg uchel gydag unrhyw un o'r peryglon hyn.
Ceffylau a chŵn	Isel	Gallai ceffylau a chŵn fod yn yr ardal. Dylai athrawon annog disgyblion i beidio mynd yn agos at geffylau na chŵn.
Syrthio o ardaloedd uchel	Isel	Dylid cynghori disgyblion i gadw i ffwrdd oddi wrth unrhyw ddbyn neu ardal beryglus arall.
Glendid/hydradu	Isel	Mae toiledau ar y safle. Dylid dod â chyfleusterau golchi dwylo sylfaenol a gwneud yn siwr eu bod ar gael.
Llid i'r croen	Isel	Dylai disgyblion fod yn ymwybodol bod rhai blodau a phlanhigion yn gallu achosi llid. Nodwch os gwelwch yn dda fod panasen wyllt ar y safle sydd yn gallu achosi llid.
Peryglon eraill.	Isel	Dylai o leiaf un aelod o'r staff cynorthwyol fod yn gymwys mewn cymorth cyntaf a dylai ef/hi fod yn cario offer cymorth cyntaf yn ystod yr ymweliad. Dylai athrawon hefyd gario ffôn symudol gyda nhw a bod yn ymwybodol o rifau argyfwng.